






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grŵp Cyngor Technegol

Datganiad ar ystyriaethau blaenoriaeth sy'n ymwneud ag ymddygiadau amddiffynnol personol i lywio penderfyniadau ar lacio cyfyngiadau, Gwanwyn 2021

31 Mawrth 2021



Yr Is-grŵp ar Hysbysu am Risg a Deall Ymddygiad

Datganiad ar ystyriaethau blaenoriaeth sy'n ymwneud ag ymddygiadau amddiffynnol personol i lywio penderfyniadau ar lacio cyfyngiadau, gwanwyn 2021

Diben y datganiad hwn

Diben y datganiad hwn yw tynnu sylw at yr ystyriaethau a'r blaenoriaethau allweddol o safbwynt ymddygiadol o lacio cyfyngiadau COVID-19. Er bod nifer yr achosion a derbyniadau i'r ysbty wedi gostwng a bod y rhaglen frechu yn mynd rhagddi'n dda, **mae'r angen i gadw lefel uchel o ymlyniad ag ymddygiadau amddiffynnol personol yn parhau**, o ystyried y posibilrwydd o gael [ton arall o heintiau](#).

Ystyriaethau blaenoriaeth

1. Ymyriadau cyfathrebu

- Dylai gweithgarwch cyfathrebu barhau i **gydnabod**: yr **aberth** y mae pobl Cymru wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf; bod lefelau **ymlyniad** wedi aros yn [gyson uchel](#); a bod y rhesymau dros [ddiffyg ymlyniad](#) yn gymhleth. **Dylid osgoi tynnu sylw'n ormodol at ddiffyg ymlyniad** er mwyn peidio â hyrwyddo ymddygiadau normal niweidiol nad ydynt yn cael eu hategu gan dystiolaeth. Yn hytrach, dylid defnyddio dulliau eraill pro-gymdeithasol (COVID-19 diogel).
- Mae tystiolaeth yn awgrymu **bod modd trosglwyddo'r feirws o hyd** a bydd **cyfran o'r boblogaeth yn dal heb eu diogelu**, hyd yn oed wrth i'r rhaglen frechu fynd rhagddi. Mae gweithgarwch cyfathrebu effeithiol [ar ymlyniad ar ôl cael y brechlyn](#) yn hanfodol, gan gynnwys y [cyfnod yn syth ar ôl brechu](#).
- Mae'n bwysig cydnabod '[blinder rhybuddion](#)' sy'n gysylltiedig â nifer a chymhlethdod y rheoliadau a'r canllawiau sydd yn eu lle. Mae **negeseuon cyson a thryloywder ynghylch unrhyw ansicrwydd** yn hanfodol gan roi **seiliau rhesymol clir dros y penderfyniadau a wneir**. Lle y bo'n bosibl, byddai'n well cael cysondeb ar draws gwledydd y DU.
- Dylai gweithgarwch cyfathrebu barhau i atgyfnerthu'r neges mai **mewn amgylcheddau dan do y mae'r risg uchaf y bydd pobl dal yr haint**, yn enwedig mewn mannau sydd wedi'u hawyru'n wael (e.e. cartrefi a swyddfeydd) a phan fyddwn gyda phobl rydym yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt. Mae gweithgareddau awyr agored yn [llai peryglus wrth reswm](#), ond maent yn fwy gweladwy, ac am y rheswm hwn efallai bod y cyfryngau'n aml yn tynnu sylw at weithgareddau awyr agored sy'n ymddangos nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau presennol. Er bod deunyddiau cyfathrebu swyddogol yn canolbwyntio fwyfwy ar fodelu ymddygiadau cyhoeddus diogel yn yr awyr agored, gall portread y cyfryngau o ymddygiad risg sy'n cyd-fynd â bod yn yr awyr agored ysgogi canfyddiadau anghywir o risg, a llai o bryder ynghylch cwrdd dan do neu liniaru risg yn yr amgylcheddau hynny.

- Dylai pob cam o godi cyfyngiadau (neu eu hailgyflwyno) gyd-fynd â **negeseuon cyson ar draws y Llywodraeth**, gyda chyflwyniad clir o risg, mesurau lliniaru ac asesu angenrheidiol ac osgoi negeseuon anfwriadol (e.e. [Estyn Llaw drwy Fwyta Allan](#)). Mae'n hanfodol bod gan y cyhoedd yr wybodaeth angenrheidiol, sy'n ddelfrydol yn berthnasol i'r cyd-destun, er mwyn deall yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud a [pham](#). Mae eglurder ynghylch y camau nesaf, gan ddarparu canllawiau ar gyfer pryd y gall pobl ddisgwyl i'r rheolau gael eu llacio (neu eu tynhau) ar gyfer ymddygiad cyhoeddus, yn bwysig.
- Er mwyn llywio deunydd cyfathrebu ac ymyriadau polisi, dylai'r Llywodraeth a'i phartneriaid barhau i ddatblygu ei **dealltwriaeth o benderfynyddion ymddygiadol addasadwy sy'n gysylltiedig â throsglwyddiad y feirws** yn bellach, gan ddefnyddio lens damcaniaethol priodol fel [COM-B](#). Tybir yn aml mai diffyg gallu neu wybodaeth (C) yw'r sbardun allweddol ond mae cymhelliant (M) a chyfleoedd (O) gan gynnwys y rheini sy'n cael eu heffeithio gan anghydraddoldebau strwythurol, megis pecynnau cymorth i alluogi gweithwyr achlysurol â chyflog isel i hunanynysu pan fo angen gwneud hynny, hefyd yn cael effaith.
- Dylai deunyddiau cyfathrebu gael eu [cyd-gynhyrchu](#) a'u profi'n gyflym gyda'r boblogaeth darged, neu'n ddelfrydol gydag is-grwpiau, cyn eu defnyddio.

2. Galluogi ymddygiadau

- Er y bydd cynnal ymddygiadau amddiffynnol personol (e.e. golchi dwylo, gorchuddio wyneb, cadw pellter) yn allweddol am y tro, dim ond rhan o'r stori yw hyn. Mae'n hanfodol ein bod yn **parhau i ganolbwyntio ar beth sy'n arwain at drosglwyddo'r feirws**, er enghraifft, annog ymddygiad lle mae pobl yn mynd am brofion ac yn hunanynysu pan fydd ganddynt symptomau, neu'n dod i gysylltiad ag achos positif. Dylid galluogi hyn drwy'r dulliau canlynol: darparu **cymorth ariannol, cymdeithasol ac ymarferol** digonol i'r rhai sy'n [hunanynysu](#); annog cyflogwyr i gefnogi **gweithio gartref** lle y bo'n ymarferol; a sicrhau bod lleoliadau fel gweithleoedd, ysgolion ac archfarchnadoedd yn ddiogel o ran COVID (awyru, cadw pellter, nodiadau atgoffa am ymddygiadau etc). Bydd angen dull traws-gymdeithasol er mwyn galluogi hyn, sy'n cydnabod yr [anghydraddoldebau](#) sydd wedi dod yn fwy amlwg yn sgil COVID-19.
- Gan fod ymddygiad yn aml yn cael ei ysgogi'n awtomatig gan sbardunau amgylcheddol (gan gynnwys ymddygiadau normadol gan eraill), bydd yn bwysig parhau i ddefnyddio dulliau amrywiol i **wella hunanymwybyddiaeth a chefnogi ymddygiad pro-gymdeithasol bwriadol**, er enghraifft, drwy **ddisgwyliadau cymdeithasol clir, addasiadau amgylcheddol** a darparu **cynlluniau, adborth a hewristeg**.
- Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r **amodau strwythurol sy'n benodol i'r sector sy'n llywio ymddygiadau**, yn enwedig lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod risg yn uwch. Mae angen esbonio'r rhain i'r cyhoedd gyda sail resymegol glir, i'w helpu i ystyried risgiau ac addasu eu hymddygiad

yn unol â hynny. Bydd cydweithio rhwng pobl a lleoliadau yn golygu y bydd yn fwy tebygol bod pobl yn aros yn ddiogel a lleoliadau yn aros ar agor.

- Yn aml, mae **petruster brechu a chyfraddau brechu is** yn adlewyrchu [anghydraddoldebau presennol](#) mewn gofal iechyd (e.e. poblogaethau sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol a lleiafrifoedd ethnig). Wrth i dystiolaeth a gwybodaeth anghywir barhau i ddod i'n amlwg, mae angen **cyfathrebu a negeseuon am risg sy'n ddiwylliannol sensitif ac wedi'u teilwra**, sydd wedi'u cyd-gynhyrchu gyda chymunedau, rhai grwpiau galwedigaethol, ffydd ac arweinwyr cymunedol dylanwadol. Mae'n debygol y bydd angen rhannu syniadau er mwyn parhau i ddeall beth sy'n achosi petruster brechu, a llywio, diweddarau a rhoi sicrwydd. Mae mesurau ymarferol i gynyddu'r cyfraddau brechu, megis cymorth teithio a lleoliadau cyfleus, hefyd yn bwysig.

3. Llythrennedd risg

- Dylid blaenoriaethu **gwella llythrennedd risg** yn y boblogaeth er mwyn grymuso pobl i wneud penderfyniadau gwybodus. Cyflawnir hyn drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys modelu ymddygiadol o senarios allweddol, darparu hewristeg priodol, a chymorth ymarferol (e.e. hyfforddiant pendantrwydd i ddelio â sefyllfaoedd cymdeithasol lletchwith). Mae angen galluogi pobl i ddeall y cydbwysedd rhwng gwybodaeth, risg, sicrwydd a gweithredu. Bydd hyn yn hollbwysig o ystyried y tebygolrwydd y bydd ein dull gweithredu yn y dyfodol yn dod yn fwyfwy o ddarparu gwybodaeth a galluogi dewis, wedi'i fframio o ran llai o ymyrraeth gan y llywodraeth a lefelau uwch o addasu/cynnal ymddygiad cyhoeddus.
- Dylid annog pobl hefyd i **gynllunio ymlaen llaw**, yn enwedig mewn perthynas â [lleihau cyfraddau trosglwyddo wrth i aelwydydd gwrdd](#) (e.e. cadw pellter, agor ffenestri).
- Wrth i sectorau ail agor, mae'n bragmatig tybio y bydd pobl yn mynd yn ôl i'w defnyddio yn yr un modd ag o'r blaen a byddant yn awyddus i gwrdd â ffrindiau/teulu ar ôl blwyddyn o gyfyngiadau. Bydd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Llywodraeth a'i phartneriaid wneud pob ymdrech i **ddylanwadu ar ymddygiad pobl wrth fynd yn ôl at wahanol weithgareddau**, megis siopa, ond gwneud hynny'n wahanol. Ochr yn ochr â'r wybodaeth bresennol o ran [Diogelu Cymru](#), dylid ystyried cymhorthion penderfynu syml sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi hyn, megis pwysleisio pwysigrwydd lle, amser a dreulir yng nghwmni pobl, awyru a nifer y bobl sy'n cyfarfod. Gall defnyddio hewristeg fod yn briodol ond ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill, gan gynnwys y gofyniad am ddeunyddiau dwyieithog.